# Patrymau

**Yn 2016 daeth gwmni Crick-Smith o Brifysgol Lincoln, sy'n arbenigo ar bapur wal, i'r Ysgwrn i gymryd samplau o bapur wal a phaent o gwmpas y ffermdy. Synwyd pawb gan ganlyniad eu hadroddiad – roedd 26 haen o bapur wal yn y gegin! Meddai'r adroddiad:**

*"Mae'r papurau wal yn cynrychioli tua 100 mlynedd o bresenoldeb di-dôr y teulu yn y cartref, er bod y dystiolaeth gynharaf yn ddarniog ac felly yn anodd ei ddyddio.*

*Mae'r addurniad i weld yn amlach yn y cyfnod cynnar (ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf hyd at yr 1930au hwyr). Er hynny, rhaid hefyd cadw mewn cof y posibilrwydd o bapurau yn cael eu tynnu o'r waliau. Mae cefn'r papurau yn dangos trosglwyddiad o liwiau, sy'n awgrymu bod yr haenau yn barhaus o'r 1900au cynnar ymlaen."*






## Papur wal Yr Ysgwrn




## Data am bapur wal

Mae papur wal fel arfer yn dod mewn 3 gwahanol lled: 21 modfedd, 27 modfedd a 42 modfedd. Fel arfer mae rolyn o bapur wal yn rhoi tua 50 troedfedd sgwar o bapur, dim ots beth yw ei led.

Maint waliau cegin (neu rhywle arall) yr Ysgwrn = ? metr sgwar neu troedfedd?

**GEIRFA MATHEMATEG/ PATRWM:**

**Brithweithio:** siapau sy'n ffitio at ei gilydd heb adael bwlch,

**Cymesuredd:** Rhywbeth sydd yr un fath ar bob ochr. Mae siap yn gymesur os gellir tynnu llinell arno (llinnell drych) i ddangos fod yr ochrau yr un fath

**Ailadrodd:** gellir ailadrodd siap i greu patrwm. Gellir cylchdroi siap hefyd i greu patrwm gwahanol.

## Ffasiynau papur wal

1897




William Morris

1920



Crown Wallpaper Co

1970



Laura Ashley

2015



Orla Kiely

## Geiriau'r Bardd:

Dim ond lleuad borffor
Ar fin y mynydd llwm
A swn hen afon Prysor
Yn canu yn y cwm.

## Her i ti...

**DYLUNIO A CHYNHYRCHU DARN O BAPUR WAL.**

Gall fod ar gyfer ystafell yn yr Ysgwrn neu'r Ganolfan Groeso neu'r Caffi.

Bydd angen patrwm y papur wal adlewyrchu hanes, tirwedd a threftadaeth Hedd Wyn, yr Ysgwrn ac ardal Trawsfynydd.

Gelli di hefyd ddylunio papur wal ar gyfer rhywle yn dy ardal di sydd yn adlewyrchu hanes, treftadaeth, tirwedd neu ddiwylliant yr ardal honno.